Health and Care Research Wales Evidence Centre

Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru



# Adolygiad cyflym o’r ffactorau lefel sefydliadol sy'n cefnogi neu'n atal graddfa a lledaeniad datblygiadau arloesol ym maes gofal cymdeithasol plant.

Chwefror 2023

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Uned Arbenigol ar Dystiolaeth Adolygu
SuRE
Specialist Unit for Review Evidence

# Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Adolygiad Cyflym

## Adolygiad cyflym o’r ffactorau lefel sefydliadol sy'n cefnogi neu'n atal maint a lledaeniad datblygiadau arloesol ym maes gofal cymdeithasol plant.

## Rhif yr adroddiad: HCRWEC_RR0001 (Chwefror 2023)

| Manylion Adolygiad Cyflym |
|---|
| **Adolygiad a gynhaliwyd gan:**<br>Uned Arbenigol Tystiolaeth Adolygu (SURE), Prifysgol Caerdydd<br><br>**Tîm Adolygu:**<br>Mala Mann, Kate Lifford, Susan O' Connell, Alison Weightman, Lydia Searchfield, Freya Davies<br><br>**Adolygiad a gyflwynwyd i'r Ganolfan Dystiolaeth ar:** 1 Chwefror 2023<br><br>**Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:** 8 Chwefror 2023<br><br>**Adroddiad Adolygiad Cyflym a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Dystiolaeth:** Ebrill 2023<br><br>**Tîm y Ganolfan Dystiolaeth:** Ruth Lewis, Alison Cooper, Adrian Edwards, Micaela Gal a Helen Freegard fu’n ymwneud â drafftio crynodeb o’r prif bwyntiau a golygu.<br><br>**Dylid cyfeirio at yr adolygiad hwn fel a ganlyn:**<br>HCRWEC_RR0001. Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru_ Adolygiad cyflym o'r ffactorau lefel sefydliadol sy'n cefnogi neu'n atal graddfa a lledaeniad datblygiadau arloesol ym maes gofal cymdeithasol plant: adolygiad cyflym. Chwefror 2023.<br><br>**Ymwadiad:** Safbwyntiau'r awduron sy'n cael eu mynegi yn y cyhoeddiad hwn, nid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau. |

# Adolygiad cyflym o’r ffactorau lefel sefydliadol sy'n cefnogi neu'n atal maint a lledaeniad datblygiadau arloesol ym maes gofal cymdeithasol plant.
# Rhif yr adroddiad: HCRWEC_RR0001 (Chwefror 2023)
## ADRODDIAD LLAWN


## CRYNODEB GWEITHREDOL

### Beth yw adolygiad cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon tra'n rhoi sylw i ragfarn. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal ac adrodd ar adolygiadau cyflym, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, echdynnu data, arfarnu beirniadol, a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau ymchwil allweddol. Maent yn cymryd rhwng mis a dau fis, yn dibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc ymchwil/cwestiwn (au), maint y sylfaen dystiolaeth, a'r math o ddadansoddiad sy'n ofynnol ar gyfer synthesis.

### Ar gyfer pwy mae'r crynodeb hwn?

Sector Gofal Cymdeithasol Plant Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

### Cefndir/Nod yr Adolygiad Cyflym

Efallai y bydd arloesi yn helpu i fynd i'r afael â heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol plant, rhai ohonynt wedi'u gwreiddio'n ddwfn a llawer ohonynt wedi'u gwaethygu gan COVID-19. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi’n sylweddol yn GCC i gefnogi datblygiadau arloesol ym maes gofal cymdeithasol i blant. Mae gan waith darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru ddull cymhleth ac amlochrog, sy'n cynnwys cydweithio rhwng ystod o sefydliadau, a fydd yn debygol o effeithio ar benderfyniadau ynghylch gweithredu ymyriadau newydd a/neu ddatblygu ymyriadau presennol. Bydd yr adolygiad cyflym hwn yn rhoi mewnwelediad i GCC o'r hyn sydd angen ei sefydlu er mwyn mabwysiadu, lledaenu a graddio datblygiadau arloesol. Ei nod oedd **nodi ffactorau (rhwystrau a galluogwyr) sy'n effeithio ar weithredu a datblygu arloesiadau mewn sefydliadau gofal cymdeithasol i blant** (gan gynnwys sefydliadau statudol a'r trydydd sector). Ni werthuswyd effeithiolrwydd arloesiadau.

At ddibenion yr adolygiad hwn, diffinnir datblygiadau arloesol fel “**gweithredu syniad, arfer neu ddyfais o fewn sefydliad neu system sy'n newydd i'r sefydliad neu'r system;** mae cyflwyno arloesedd yn cynhyrchu proses o newid gyda chanlyniadau ansicr sy'n aflonyddgar i'r unigolion, y sefydliad neu'r system” Zigante ac eraill. (2022). Cyfyngwyd yr adolygiad i **astudiaethau'r DU** ac adolygiadau perthnasol i'r DU o unrhyw gynllun a gyhoeddwyd ers 2014.

### Prif Ganfyddiadau

Nodwyd deg astudiaeth (13 cyhoeddiad): tair astudiaeth eilaidd (adolygiadau) a saith astudiaeth gynradd nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adolygiadau.  Nodwyd pum datblygiad arloesol pellach a weithredwyd yng Nghymru: dau werthusiad lleol anffurfiol a thri heb eu gwerthuso'n lleol.

*Maint y sylfaen dystiolaeth*

- Roedd ymchwil eilaidd yn cynnwys: adolygiad systematig dulliau cymysg o Arwyddion Diogelwch, a oedd yn cynnwys 13 astudiaeth yn y DU (un o Gymru) ynghyd ag eraill o wledydd sy'n berthnasol i'r DU; trosolwg ansystematig o bedwar datblygiad arloesol a weithredwyd fel rhan o Raglen Graddfa a Lledaeniad Manceinion Fwyaf; ac asesiad systematig o **Brosiectau Arloesi Gofal Cymdeithasol Plant** a ariennir gan yr Adran Addysg**,** a Phartneriaid mewn Ymarfer cysylltiedig, a weithredwyd ledled Lloegr.
- Roedd yr holl astudiaethau cynradd yn werthusiadau gwasanaeth, a thri ohonynt yn defnyddio cynllun astudiaeth ansoddol.
- Cynhaliwyd pum astudiaeth gynradd yn Lloegr neu'r Alban, ac roedd un ohonynt yn addasiad o ddatblygiad arloesol a ddefnyddiwyd mewn man arall, ac roedd y gweddill yn gweithredu datblygiadau arloesol cychwynnol.
- Roedd dwy astudiaeth gynradd yn cynnwys gwerthusiad lleol ffurfiol o ddatblygiadau arloesol yng Nghymru.

*Diweddarwch y sylfaen dystiolaeth*

- Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a oedd ar gael hyd at 17 Tachwedd 2022.

*Ffactorau a allai ddylanwadu ar raddfa a lledaeniad.*

- Roedd y galluogwyr yr ymddengys bod consensws clir yn dod i'r amlwg ar eu cyfer ar draws y llenyddiaeth yn cynnwys y canlynol.
  - **Hyfforddiant a chefnogaeth** benodol i staff proffesiynol.
  - **Cymorth a pharch at ei gilydd o fewn cydberthnasau** rhyng-broffesiynol a rhwng gofalwyr a gweithwyr proffesiynol**.**
  - **Cymorth a chefnogaeth uwch-reolwyr/arweinwyr.**
  - **Cyfathrebu amlddisgyblaethol a gweithio ar y cyd.**
  - **Systemau data cydnaws** i gefnogi cydweithio/cydweithredu.
- Roedd y rhwystrau yr ymddengys bod consensws clir yn dod i'r amlwg ar eu cyfer ar draws y llenyddiaeth fel a ganlyn.
  - Cyllid tymor byr neu **ddiffyg cyllid** (cyflwynwyd yr angen am gyllid fel galluogwr mewn rhai astudiaethau).
  - **Anawsterau gweithredu** (e.e. blaenoriaethau lluosog a strwythurau sy'n newid).

*Tystiolaeth o'r ansawdd gorau*

- Dwy astudiaeth ansoddol o ansawdd canolig (a gynhaliwyd yn Lloegr): Oliveira ac eraill (2022) ac Alderson ac eraill (2022).
- Dim ond ar bum astudiaeth gyda methodoleg benodol y cynhaliwyd asesiad ansawdd ffurfiol; roedd tair ohonynt o ansawdd gwael.

## Goblygiadau Polisi

- Mae'r adolygiad cyflym hwn yn tynnu sylw at gymhlethdod y modelau gofal cymdeithasol ond mae'n cynnig rhai awgrymiadau clir ar gyfer polisi ac ymarfer.
- Mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd, i ryw raddau, ag adroddiadau blaenorol (Zigante ac eraill (2022), Callanan a Mitchell (2020)) sy'n awgrymu'r angen am: gefnogaeth a chymorth uwch-reolwyr; cyllid tymor byr a thymor hwy; cyfathrebu amlddisgyblaethol a gweithio ar y cyd; cydberthnasau proffesiynol da (a rhwng gofalwyr a gweithwyr proffesiynol) gyda chymorth a pharch at ei gilydd; a hyfforddiant a chymorth penodol i staff proffesiynol.

## Cryfder y Dystiolaeth

Mae'r hyder yn y dystiolaeth yn ansicr. Roedd cynlluniau’r astudiaethau yn cynnwys adolygiadau a gwerthusiadau gwasanaeth ansystematig; nid oedd y rhan fwyaf o astudiaethau'n defnyddio methodoleg ffurfiol, ac roedd gan bob un ohonynt rai cyfyngiadau ansawdd.

Darllenwch yr adroddiad llaw